# BISHOPS' CONFERENCE OF ENGLAND & WALES

## Neges Fugeiliol Esgobion Catholig Cymru ynghylch yr etholiadau ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'w cynnal ar Fai 5ed, 2011.

I'w darllen neu ei dosbarthu ar ddiwedd Offerennau ar ddyddiau Sadwrn a Sul Ebrill 30 a Mai 1.

Ar Fai 5ed, bydd trigolion Cymru yn pleidleisio i ethol Cynulliad Cenedlaethol newydd i Gymru.

Mae Esgobion Catholig Cymru yn awyddus i annog Catholigion i gyflawni eu dyletswydd fel dinasyddion trwy bleidleisio yn yr etholiad hwn. Bydd y dewisiadau polisi a wneir gan Lywodraeth y Cynulliad newydd yn cael dylanwad pwysig ar ansawdd bywyd dinasyddion Cymru mewn cyfnod o gwtogi cyllidol ac o nifer o heriau moesol ac ethegol. Felly, mae hi'n holl bwysig fod Catholigion Cymru yn rhoi dwys ystyriaeth i'r materion hyn a gwneud dewis rhesymol o ba ymgeiswyr i'w cefnogi, a'r ffordd y byddant yn pleidleisio yn yr etholiad.

Ni all yr esgobion ddweud wrth bobl sut i bleidleisio. Er hynny, fe hoffem dynnu'ch sylw at nifer o agweddau o'r Ddysgeidiaeth Gymdeithasol Gatholig sy'n berthnasol i ddatblygiadau cyfoes yn ein cymdeithas.

**Priodas a'r teulu:** Mae'r Eglwys Gatholig, gan ddilyn dysgeidiaeth yr Efengyl a 2000 o flynyddoedd o arferiad Cristnogol, yn dysgu fod priodas yn ymrwymiad cyhoeddus ac am oes gan ddyn a dynes i gydfyw mewn uniad. Rydym yn ystyried priodas yn Sagrafen gan ei bod yn dwyn parau priod at galon cariad Duw a adlewyrchir yn eu perthynas â'i gilydd. Er ein bod yn cydnabod ymdrechion arwrol llawer o rieni sengl i fagu'u plant mewn amgylchiadau anodd iawn, rydym yn pwysleisio mai'r rhodd o blant a'u haddysg mewn teulu sefydlog a pharhaol yw craidd dysgeidiaeth yr Eglwys.

**Addysg ac Ysgolion Ffydd:** Mae'r Eglwys Gatholig yn haeru mai'r rhieni yn y pen draw sy'n gyfrifol am addysg eu plant, ac, ymhellach, fod ganddyn nhw hawl i fynnu eu bod yn derbyn yr addysg honno mewn awyrgylch sy'n parchu eu credoau crefyddol. Dyna sail ein hymrwymiad fel Eglwys i ddarparu ysgolion Catholig, a hynny ar gost sylweddol i'r Gymuned Gatholig yn aml. Yng Nghymru, mae'r ysgolion hyn yn darparu addysg o safon academaidd ragorol sydd hefyd yn paratoi Catholigion ifainc ar gyfer cymryd eu lle fel dinasyddion cyfrifol yn ein cymdeithas. Maen nhw hefyd yn darparu addysg i lawer o blant o rannau tlotaf ein cymdeithas ac felly yn hybu cydlyniad cymdeithasol. Gofynnwn i etholwyr Catholig holi eu hymgeiswyr a ydyn nhw'n cefnogi'r hawl i gynnal ysgolion Catholig a deddfwriaeth i gynyddu'r cymhorthdal ar gyfer pob ysgol.

**Iechyd a materion Lles Cymdeithasol:** Wrth galon Dysgeidiaeth Gymdeithasol yr Eglwys Gatholig mae'r cysyniad o urddas absoliwt y person dynol, a luniwyd yn nelw ac yn ôl llun Duw, ac sydd wedi ei dynghedu i gyfrannu o'r bywyd dwyfol hyd dragwyddoldeb. Hefyd sancteiddrwydd bywyd dynol nid fel rhyw 'eiddo' gan fodau dynol ond fel rhodd gan Dduw. Y ddealltwriaeth hon o natur bywyd dynol sy'n sail i'n gwrthwynebiad i unrhyw beth sy'n peryglu bywyd, yn enwedig mewn cyfnodau o wendid arbennig yn hanes pobl, megis baban yn y groth neu bobl fregus yn eu henaint, trwy erthyliad, cymorth i hunanladdiad, neu ewthanasia. Mae yna ladmeryddion yn ein cymdeithas ni heddiw sy'n awyddus i 'rhyddfrydu a hybu'r' arferion hyn ond mae'r Eglwys yn sefyll yn gadarn yn erbyn hynny. Ar yr un pryd, mae safiad dros-fywyd yr Eglwys hefyd yn cynnwys dealltwriaeth ehangach o ystyr 'bywyd' sy'n cwmpasu'r holl amodau sy'n cynnig ffyniant llawn i fodau dynol. Mae hyn  yn cynnwys ansawdd iechyd, addysg, tai, a chael gwared ar bob math o dlodi. Mae'r Eglwys hefyd yn credu mewn cyfartaledd rhwng pawb a phobun, ac yn erbyn unrhyw wahaniaethu annheg yn erbyn unigolion neu grwpiau.

**Materion economaidd:** Yn 2008 cafwyd methiant trychinebus yn y gyfundref bancio trwy'r byd a ymledodd i'r system economaidd ehangach gyda chanlyniadau echrydus i nifer o wledydd a grwpiau. Dylanwadodd hyn mewn ffordd bendant ar gyllidau cyhoeddus a pholisïau sy'n deillio ohonyn nhw. Er bod llawer o benderfyniadau allweddol ynghylch cyllidau cyhoeddus yn cael eu gwneud yn Senedd San Steffan, mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru ynghyd a Llywodraeth Cymru hefyd yn gorfod gwneud penderfyniadau ynghylch eu polisïau mewn cyd-destun cymhleth. Yn ei araith yn Neuadd Westminster i arweinwyr Prydain fis Medi diwethaf, fe nododd y Pab Bened XVI y methiannau moesol sydd wrth wraidd y gyfundrefn bancio, gan annog mwy o sylw i werthoedd wrth ymwneud â'n systemau cyllidol ac economaidd. Mae'r sylwadau hyn yn berthnasol i Lywodraeth Cymru yn ogystal. Mae'n rhaid i'r dewisiadau anodd sy'n rhaid eu gwneud ynghylch pa wasanaethau cyhoeddus fydd yn cael eu cyllido, ac i ba radd, gael eu gwneud yng ngoleuni system o werthoedd moesol a sylfaenwyd ar urddas diamod y person dynol a lles cyffredinol cymdeithas. Mae'r Eglwys yn chwarae rhan helaeth mewn gwaith elusennol dros yr un Lles Cyffredinol y Gymdeithas, a thros gydlyniad cymunedol. Dylai etholwyr Catholig holi eu dewis ymgeisydd a ydyw yn cefnogi gweledigaeth o'r fath.

Gofynnwn i etholwyr Catholig ac eraill ystyried a yw eu dewis ymgeisydd yn debyg o adlewyrchu'r ddysgeidiaeth Gatholig ar y materion hyn.

**+ George Stack**
Archesgob etholedig Caerdydd

**+Tom Burns**
Esgob Mynyw

**+Edwin Regan**
Esgob Wrecsam.